

2020 Rhif (Cy. )

2020 No. (W. )

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffordd yr A44  
(Pont Dolau i Lanyrafon, ger  
Aberystwyth, Ceredigion)  
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)  
2020

The A44 Trunk Road (Pont Dolau  
to Glanyrafon, near Aberystwyth,  
Ceredigion) (Temporary  
Prohibition of Vehicles) Order  
2020

*Gwnaed* 25 Chwefror 2020

*Made* 25 February 2020

*Yn dod i rym* 2 Mawrth 2020

*Coming into force* 2 March 2020

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A44, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A44 Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**Title, Commencement and Interpretation**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A44 (Pont Dolau i Lanyrafon, ger Aberystwyth, Ceredigion) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 2 Mawrth 2020.

1. The title of this Order is the A44 Trunk Road (Pont Dolau to Glanyrafon, near Aberystwyth, Ceredigion) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2020 and it comes into force on 2 March 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 18:00 o'r gloch ar 2 Mawrth 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A44 Newtown to Aberystwyth Trunk Road;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A44 y Drenewydd i Aberystwyth.

"works period" ("*cyfnod y gwaith*") means intermittent periods commencing at 18:00 hours on 2 March 2020 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

## **Gwaharddiad**

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darn o'r gefnffordd i'r dwyrain o Aberystwyth yn sir Ceredigion sy'n ymestyn o bwynt 150 o fetrau i'r gorllewin o Bont Dolau hyd at bwynt 100 metr i'r gorllewin o Black Bridge, Glanyrafon.

## **Cymhwyso**

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

## **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

25 Chwefror 2020

*Richard Morgan*  
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

## **Prohibition**

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the length of the trunk road east of Aberystwyth in the county of Ceredigion that extends from a point 150 metres west of Pont Dolau to a point 100 metres west of Black Bridge, Glanyrafon.

## **Application**

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

## **Duration of this Order**

5. The maximum duration of this Order is 12 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

25 February 2020

*Richard Morgan*  
Head of Planning, Asset Management & Standards  
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A44 (PONT DOLAU I LANYRAFON, GER ABERYSTWYTH, CEREDIGION) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2020**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn am fod gwaith yn cael ei wneud ar gefnffordd yr A44, neu gerllaw iddi, rhwng Pont Dolau a Glanyrafon, Ceredigion.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A44 i'r dwyrain o Aberystwyth, Ceredigion sy'n ymestyn o bwynt 150 o fetrau i'r gorllewin o Bont Dolau hyd at bwynt 100 metr i'r gorllewin o Black Bridge, Glanyrafon.

Y llwybr arall i gerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain yw mynd ar yr A44 tua'r gorllewin hyd at Coopers Corner, Aberystwyth, yr A487 tua'r gogledd i Bow Street a'r A4159 tua'r de i ailymuno â'r A44 wrth Gylchfan Gelli Angharad: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin. Sylwer bod cyfyngiad uchder o 14'9" (4.5m) ar y llwybr hwn yn Rhydtir, i'r de o Bow Street a dylai gyrwyr cerbydau uchel fod yn ymwybodol o hyn.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn dod i rym ar 2 Mawrth 2020 ac yn weithredol dros nos (18:30 - 06:00 o'r gloch) tan 9 Mawrth 2020 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchymynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**THE A44 TRUNK ROAD (PONT DOLAU TO GLANYRAFON, NEAR ABERYSTWYTH, CEREDIGION) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2020**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A44 trunk road between Pont Dolau and Glanyrafon, Ceredigion.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the length of the A44 trunk road east of Aberystwyth, Ceredigion that extends from a point 150 metres west of Pont Dolau to a point 100 metres west of Black Bridge, Glanyrafon.

The alternative route for eastbound vehicles is via the westbound A44 to Coopers Corner, Aberystwyth, northbound A487 to Bow Street and southbound A4159 to rejoin the A44 at Lovesgrove Roundabout: vice versa for westbound vehicles. Please note that there is a 14' 9" (4.5m) height restriction on this route at Rhydtir, south of Bow Street of which the drivers of high vehicles should be aware.

It is expected that the temporary prohibition will come into force on 2 March 2020 and operate overnight (18:30 – 06:00 hours) until 9 March 2020 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 12 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government